AwtistiaethCymru.org

Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol

National Autism Team

AutismWales.org

# Adroddiad Blynyddol 2022/23

"Roedd yr hyfforddiant a gawsom yn amhrisiadwy, roedd yn addysgiadol, yn ddiddorol, ac yn hawdd ei ddilyn. Yr hyn yr oeddem yn ei garu'n fawr amdano oedd yr holl fideos hyfforddi a chymorth ychwanegol ar eich gwefan y gallem gael mynediad iddynt yn ein hamser ein hunain, cyfeiriadur ar flaenau ein bysedd."

"Mae'r hyfforddiant wedi codi ymwybyddiaeth pawb yn yr ysgol a sut mae angen rheoli sefyllfaoedd gwahanol i gefnogi ein dysgwyr awtistig."

"Rwyf wedi dysgu llawer ac wedi adnabod a chysylltu'r cyflyrau hyn mewn pobl rwy'n eu hadnabod, ac felly mae'n bendant wedi bod yn werthfawr iawn i mi – mae wedi codi fy ymwybyddiaeth am awtistiaeth yn sylweddol."

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CLILC
WLGA

GIG CYMRU
NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cynnwys

Cyflwyniad gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol.................03

Pennod 1: Cydweithio.........................................................04

Pennod 2: Cyfathrebu.........................................................06

Pennod 3: Cod Ymarfer.........................................................08

Pennod 4: Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu....................12

Pennod 5: Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig...............17

Pennod 6: Addysg.........................................................19

Pennod 7: Pontio i'r Tîm ND Cenedlaethol.........................22

Atodiad: Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig 2022/23 Adroddiad Data..................................................25

# Cyflwyniad

Fel y gwelwch o'r adroddiad blynyddol eleni (2022-23) mae wedi bod yn flwyddyn brysur a chynhyrchiol unwaith eto. Mae'r ymarferion a ddatblygwyd yn sgil y pandemig wedi cynorthwyo i lunio gwaith y tîm ac mae symud i wasanaeth ar-lein wedi cynnig cyfleoedd enfawr i gysylltu â chynulleidfaoedd ehangach ac i fod yn rhagweithiol wrth i'r anghenion ddod i'r amlwg. Mae ystod eang o hyfforddiant a digwyddiadau ar-lein wedi cael eu datblygu a'u darparu. Roedd y rhain yn hygyrch i fwy o bobl ac o gymorth i ni barhau i ddatblygu adnoddau ardderchog ar ein gwefan. Mae'r wefan yn parhau i fod yn un o'n prif gynigion i'r gymuned awtistig a gweithwyr proffesiynol ar draws Cymru.

Mae cyflwyno Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Awtistiaeth wedi cynnig cyfle i ymgysylltu â'r gweithlu ehangach ledled Cymru ac mae'r gweminarau cinio a dysgu wedi bod yn hynod effeithiol.Mae'r tîm wedi gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd i gynorthwyo gyda'u gweithrediad o'r Cod.

Yn ogystal, mae gweithio dros y we wedi ein galluogi ni i ddatblygu ein cyd-gynhyrchu ymhellach. Rydym wedi sefydlu grwpiau ymgynghorol effeithiol ac amrywiol ar gyfer oedolion ag awtistiaeth, a gweithgorau amlddisgyblaethol i lunio a hysbysu ein gwaith. Diolch i bawb sydd wedi cyfranogi - mae eich cyfranogiad wedi bod yn amhrisiadwy. Mae gweithio gyda'r gymuned awtistig, gweithwyr proffesiynol a chydweithwyr eraill wedi sicrhau bod popeth a wnawn yn ddefnyddiol ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl awtistig a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae ein hethos 'Unwaith i Gymru' yn hysbysu ein prosiectau a datblygiadau i sicrhau cysondeb a thegwch, yn lleihau dyblygu ac yn fwy cost effeithlon.
Eleni mae'r tîm wedi ehangu eu cylch gwaith i ymgorffori agenda niwrowahaniaeth ehangach. Mae staff ychwanegol a chynllun trawsnewid wedi sicrhau bod symud i fod yn Dîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn cael ei gyflawni mewn modd sydd wedi'i gynllunio, yn effeithiol a phwyllog.

Mae ein gwaith yn amrywiol a chadarn ac mae ein hadroddiad blynyddol yn amlinellu'r elfennau allweddol sy'n dangos manylder ac ehangder ein gwaith. Gobeithio y teimlwch fod yr adroddiad yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth. Mae dal llawer mwy sydd angen ei wneud ar gyfer pobl awtistig a'u teuluoedd ond mae llawer i'w ddathlu hefyd. Yn ogystal â hyn, mae symud i ND yn gyffrous a heriol, ond mae'r gwaith cychwynnol cadarn wedi dechrau yn 2022-23.

Fel yr arfer, hoffem ddiolch i Lywodraeth Cymru am y cyllid craidd parhaus i gefnogi gweithrediad llwyddiannus Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig Llywodraeth Cymru, y Cynllun Cyflawni cysylltiedig a'r Cod Ymarfer ar gyfer Awtistiaeth. Diolch hefyd i CLILC am eu cefnogaeth ac arweiniad parhaus.

*- Y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol*

# Pennod 1: Cydweithio

## Gweithio gyda'r gymuned awtistig:

Mae cyd-gynhyrchu yn brif flaenoriaeth ar gyfer y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Mae pobl awtistig wrth wraidd yr holl weithgorau, ac yn dylanwadu ar yr holl waith, adnoddau, hyfforddiant a digwyddiadau.

Mae Autistic UK Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r tîm i ddatblygu grwpiau ymgynghorol o bobl awtistig. Mae hyn yn sicrhau bod y gymuned awtistig yn ymgysylltu mewn modd hygyrch ac ystyrlon.

Fel egwyddor, mae'r tîm yn gwerthfawrogi cyfraniad pobl awtistig ac yn cydnabod yr amser y maent yn ei roi i'n prosiectau, yr egni, arbenigedd a'r ymroddiad.

Mae'r tîm wedi gweithio'n agos gyda'r grwpiau ymgynghorol eleni i gynhyrchu'r modiwlau e-ddysgu: Deall Awtistiaeth a Deall Cyfathrebu Effeithiol ac Awtistiaeth, ac i gynhyrchu cyfres o daflenni cyngor ar gyfer oedolion awtistig.

## Arweinwyr Awtistiaeth Awdurdodau Lleol:

Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r Arweinwyr Awtistiaeth mewn awdurdodau lleol ledled Cymru.Mae'r tîm wedi parhau i hwyluso cyfarfodydd rhwydwaith rhithiol Arweinwyr Awtistiaeth Cenedlaethol bob chwarter, ynghyd â chyfarfodydd rhanbarthol bob chwarter ar gyfer Arweinwyr Gogledd Cymru ac Arweinwyr De a Gorllewin Cymru.

Roedd gan yr Arweinwyr Awtistiaeth rôl allweddol i rannu gwybodaeth gan y tîm yn lleol a hysbysu polisi cenedlaethol a chanllawiau drwy rwydweithiau lleol ac ymgysylltu mewn ymagwedd llawr gwlad.

Darllenwch enghreifftiau o arfer gorau o'r Arweinwyr Awtistiaeth **yma**.

## Steering groups:

Mae aelodau'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi bod yn aelodau o sawl grŵp llywio ac ymchwil dros y flwyddyn ddiwethaf, i sicrhau bod anghenion a diddordebau pobl awtistig a'u teuluoedd yn cael eu cynrychioli yn y grwpiau hyn. Mae'r grwpiau y mae'r tîm wedi cynrychioli arnynt yn cynnwys:

- **TEC Cymru/TERMS**
- **Grŵp Llywio Nyth / Nest**
- **Is-grŵp Teithio Llesol Cynhwysol**
- **Grŵp Llywio Cyflogaeth Pobl Anabl**

# Cyfarfod Dirprwyaeth Sbaen:

Ar 28 Gorffennaf 2022, cyfarfu'r tîm gyda dirprwyon o Gyngor Taleithiol Gipuzkoa o Ranbarth y Basg tra roeddent yn ymweld â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.Roedd y cyfarfod yn gyfle i rannu'r arferion gorau o Gymru a Rhanbarth y Basg.




**(Y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru a Chyngor Taleithiol Gipuzkoa)**

# Pennod 2: Cyfathrebu

## Ystadegau defnyddwyr a'r wefan:

Mae AwtistiaethCymru.org yn cael ei reoli gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Mae'r wefan yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ac yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer holl ddatblygiadau awtistiaeth cenedlaethol. Mae'n un o'r adnoddau sy'n helpu'r tîm i gyflawni eu nod i wella bywydau pobl awtistig yng Nghymru.

Mae'r holl adnoddau ar gael yn ddwyieithog ar y wefan.


Yn ystod 2022/23, roedd cynnydd o **80,047** o ddefnyddwyr ar wefan Awtistiaeth Cymru a chyfanswm o **283,665** wedi edrych ar y dudalen. Cynyddodd cyfartaledd yr ymwelwyr newydd i'r wefan i **94%** hefyd.


## Wythnos Derbyn Awtistiaeth y Byd:

Mae Wythnos Derbyn Awtistiaeth y Byd yn ddigwyddiad allweddol o ran cynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a derbyn awtistiaeth. Defnyddiodd y tîm hyd yn oed mwy ar eu cyfrifon Facebook a Twitter, a agorwyd mewn ymateb i Covid-19, gan rannu sawl neges ddwyieithog bob dydd a darparu dolenni i adnoddau yn ymwneud â derbyn awtistiaeth sydd ar wefan Awtistiaeth Cymru.

Eleni bu'r tîm yn gweithio gydag aelodau'r grwpiau ymgynghorol i greu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â phwysigrwydd derbyn awtistiaeth.Cynhyrchodd aelodau'r grŵp ymgynghorol ddyfyniadau am eu teimladau ar y testun ac yna fe'u rhannwyd ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd cryn dipyn o ymgysylltiad â'r negeseuon yn ystod yr wythnos a'r rhain oedd y negeseuon gyda'r nifer mwyaf o bobl yn eu hoffi a'u rhannu.

Cyflwynodd y tîm gyfres o weminarau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn ystod Wythnos Derbyn Awtistiaeth, i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth drwy hyrwyddo'r modiwlau e-ddysgu ac adnoddau eraill. Cyflwynodd y tîm sgwrs i weithwyr Cyngor Caerdydd mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan eu Rhwydwaith Anableddau'n ystod yr wythnos.




**(Graffeg o ymgyrch cyfryngau cymdeithasol WAAW)**

# Digwyddiadau Ymgysylltu:

Bu'r tîm yn rhan o nifer o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb yn ystod 2022/23. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i'r tîm hyrwyddo gwaith ac adnoddau'r tîm a llunio cysylltiadau gyda phobl awtistig, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill.

Roedd y digwyddiadau a fynychwyd eleni'n cynnwys:

- Sioe Iechyd Meddwl a Lles, 2022
- Autistic Minds Live, Caerdydd
- Cynhadledd Ymchwil Tai Cymru
- Diwrnod Galluogi Heddlu Gwent
- Digwyddiad Wythnos Derbyn Awtistiaeth y Byd Sir Gâr

# Stori Ddigidol Ewan Richards:


(Ewan Richards yn ystod ffilmio ar gyfer ei stor digidol)

Cynhyrchodd y tîm gyfweliad astudiaeth achos stori ddigidol gydag Ewan Richards. Mae Ewan yn awtistig ac yn ddiweddar mae ef wedi ennill Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Cyfrifiadureg BSc ac mae'n astudio ar gyfer gradd Meistr ar hyn o bryd mewn Peirianneg Meddalwedd Cyfrifiadura, ym Mhrifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant.

Cafodd Ewan ddiagnosis o awtistiaeth yn 11 oed, ac yn y cyfweliad, mae'n trafod sut yr effeithiwyd ar ei brofiad ym myd addysg a chyflogaeth oherwydd hynny.

Roedd Ewan yn rhan o fideo Addysg Bellach y tîm tra'n astudio yng Ngholeg Sir Gâr ac mae wedi bod yn aelod gweithredol o'r holl grwpiau prosiect ymgynghorol.

Gwyliwch y cyfweliad stori ddigidol **yma**.

# Cynrychiolaeth Grŵp Awtistiaeth Trawsbleidiol:

Cyflwynodd y tîm mewn cyfarfod Grŵp Awtistiaeth Trawsbleidiol ar 19 Ionawr 2023. Roedd y cyflwyniad yn darparu trosolwg o sut mae'r tîm yn cefnogi gweithrediad y Cod Ymarfer ar gyfer Darparu Gwasanaethau Awtistiaeth a phrif feysydd gwaith ac adnoddau'r tîm.

# Pennod 3:
# Cod Ymarfer

## Gweminarau'r Bwrdd Iechyd:

Yn 2022/23, dechreuodd y tîm gyflwyno rhaglen o weminarau ar gyfer y Byrddau Iechyd ledled Cymru.Roedd y rhain yn para am awr.Roedd y 30 munud cyntaf yn gyflwyniad i Niwroamrywiaeth, yn darparu trosolwg o'r Cod Ymarfer a'i ddyletswyddau, ac yn hyrwyddo modiwlau e-ddysgu a sesiynau Cymuned Ymarfer y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ( i ddysgu mwy am y sesiynau hynny, gweler Pennod 4). Roedd yr ail hanner yn amser penodol i'r cynrychiolwyr fewngofnodi ar lwyfan dysgu a datblygu iechyd (ESR) i gwblhau'r modiwl.Roedd hyn yn rhoi amser i sicrhau y gall yr holl gynrychiolwyr gael mynediad at y modiwlau ac i ddatrys unrhyw broblemau technegol.

Cyflwynwyd y gyfres gyntaf o weminarau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Cyflwynwyd 8 sesiwn 1 awr ac fe fynychodd cyfanswm o **468** o bobl y sesiynau. O'r **468** o bobl, mae **302** o bobl (**67%**) wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu cyntaf, Deall Awtistiaeth.

Mae sesiynau eraill wedi'u trefnu gyda Byrddau Iechyd eraill. Hyd yma, cynhaliwyd un sesiwn gyda Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, gyda **15** o bobl yn bresennol.

### Adborth:

Casglodd y tîm adborth ansoddol o'r sesiynau hyn. Roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol, gyda'r dyfyniadau'n cynnwys:

"Hyfforddiant llawn gwybodaeth. Dolenni cyswllt a'r wybodaeth yn ddefnyddiol."

"Roedd yr hyfforddwr yn ymgysylltu'n dda. Roedd ei gwybodaeth a'i hangerdd yn amlwg."

"Gwych! Diolch am eich cyflwyniad, amser a gwybodaeth, rydym oll yn ei werthfawrogi."

"Roedd cryn dipyn o wybodaeth i'w glywed drwy wrando ar yr hyfforddwr."

"Roedd yn diwallu'r nodau ac yn ddefnyddiol."

## Gweminarau Awdurdodau Lleol:

Cyflwynodd y tîm raglen debyg o weminarau ar gyfer staff Awdurdodau Lleol. Roedd y sesiwn yn para am awr ac yn darparu trosolwg o'r Cod Ymarfer a'r dyletswyddau, ynghyd ag adnoddau sydd gan y tîm i gefnogi staff i gyflawni'r dyletswyddau hynny.

Yn rhanbarth Gorllewin Cymru, cynhaliwyd **6** gweminar i'r staff sy'n gweithio ar draws Sir Gâr, Ceredigion a Sir Benfro. Cafwyd cyfanswm o **127** aelod o staff yn y sesiynau hynny.

Yn Ynys Môn, cynhaliwyd gweminar mewn cynhadledd i staff Plant a Theuluoedd.

Hwylusodd y tîm **4** gweminar a oedd yn agored i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd **120** o bobl yn bresennol ar draws y **4** sesiwn, gyda chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol canlynol:

- Blaenau Gwent
- Caerffili
- Caerdydd
- Sir Gâr
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Gwynedd
- Sir Fynwy
- Castell-nedd Port Talbot
- Sir Benfro
- Powys
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe
- Wrecsam

Mae sawl sesiwn gweminar arall ar gyfer Awdurdodau Lleol wedi'u trefnu ar gyfer 2023/24.

### Adborth:

Casglodd y tîm adborth ansoddol o'r sesiynau hyn. Roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol, gyda'r dyfyniadau'n cynnwys:

"Roedd y cwrs yn gymorth mawr i gefnogi gyda gradd mewn Gwaith Cymdeithasol."

"Roedd yn gwella fy ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau'r ALl a'r Bwrdd Iechyd o ran cefnogi unigolion gydag Awtistiaeth."

"Cefais wella fy nealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau'r ALl a'r Bwrdd Iechyd o ran cefnogi unigolion gydag Awtistiaeth."

"Rwy'n deall fframwaith COP yn well."

"Defnyddiol clywed y crynodeb o bethau."

## Podlediad Cod Ymarfer:




(Sgrinlun o bodledi'r Cod Ymarfer)


Cyd-gynhyrchodd y tîm bodlediad ar y Cod Ymarfer gydag Autistic UK. Mae'r podlediad ar gyfer pobl awtistig a'u teuluoedd ac yn ceisio eu grymuso i gael gwell dealltwriaeth o'u hawliau o dan y Cod.Hyd yma, mae un bennod wedi'i chyhoeddi ar gyd-destun gwleidyddol y Cod.

Gwrandewch ar y podlediad **yma**.

## Modiwlau E-ddysgu:

Lansiwyd dau **fodiwl e-ddysgu** a gyd-gynhyrchwyd: 'Deall Awtistiaeth' a 'Deall Cyfathrebu Effeithiol ac Awtistiaeth'. Maent ar gael ar bron bob platfform dysgu sydd gan Awdurdodau Lleol ac ar blatfform ESR y Bwrdd Iechyd, gyda staff Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd yn eu cwblhau drwy'r systemau hyn. Maent hefyd ar gael ar wefan Awtistiaeth Cymru ar gyfer sefydliadau sydd heb blatfform dysgu. Argymhellir bod pob aelod o staff yn eu cwblhau fel rhan o'u hyfforddiant sylfaenol, gyda rhai awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn dewis eu gorfodi.




(Tudalennau clawr modiwl eDdysgu)

Mae'r modiwlau hyn ar gyfer y rhai sydd eisiau gwella bywydau pobl awtistig a'u teuluoedd yng Nghymru drwy gael gwell dealltwriaeth o awtistiaeth. Mae'r ddau fodiwl yn rhoi dealltwriaeth lefel sylfaenol o awtistiaeth a'r ffyrdd y gall effeithio ar fywydau bob dydd pobl awtistig i'r gweithlu.

Cyd-gynhyrchwyd y modiwlau gyda grŵp ymgynghorol o bobl awtistig a gweithgor o weithwyr proffesiynol. Maent yn cynnwys lleisiau a phrofiadau holl aelodau'r grwpiau ymgynghorol. Maent yn gyrsiau achrededig DPP ac wedi'u henwebu'n ddiweddar ar gyfer gwobr DPP 'Cwrs Ar-lein y Flwyddyn'.

Yn seiliedig ar ddata gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, mae **1,906** aelod o staff wedi cwblhau'r modiwlau hyd yma, gyda mwy am eu cwblhau yn 2023/24. O'r **1,906** mae **592** aelod o staff yng Ngheredigion wedi cwblhau'r modiwlau, **382** aelod o staff yng Ngwynedd wedi cwblhau'r modiwlau a **323** aelod o staff yn Wrecsam wedi cwblhau'r modiwlau.

Mae'r tîm yn datblygu'r modiwl nesaf yn y gyfres e-ddysgu ar hyn o bryd, a fydd yn canolbwyntio ar asesiadau.

**Adborth:**

Mae'r modiwlau wedi derbyn adborth ansoddol cadarnhaol gan staff yr Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd, gyda'r dyfyniadau'n cynnwys:

"Dim ond eisiau dweud bod eich gwaith yn ein hysbrydoli."

"Dyma'r cwrs gorau erioed. Roedd clywed llais yr unigolion awtistig yn golygu bod y cwrs yn hynod ddynamig!"

"Roedd adborth ar y modiwl yn gadarnhaol gyda thermau fel 'defnyddiol', 'diddorol' a 'llawn gwybodaeth' yn cael eu defnyddio i ddisgrifio'r modiwl."

"Wedi'i gyflwyno'n dda."

"Gwnaed cais bod y modiwl yn un gorfodol."

"Rydym yn derbyn adborth cadarnhaol iawn ar y modiwl yn ein sir ac o siroedd eraill yng Ngogledd Cymru."

"Roeddwn mewn cyfarfod Dementia yr wythnos hon ac fe drafodwyd modiwl e-ddysgu yno, ac fe awgrymwyd eu bod yn defnyddio'r un fformat â'ch modiwl chi a sut yr oedd cynnwys pobl sy'n byw â'r cyflwr yn yr hyfforddiant o fudd i ddysgwyr."

"Dim ond eisiau nodi ei fod yn wych. Rwyf wedi dysgu llawer drwy fynd drwy'r modiwl ac yn gallu adnabod a chysylltu'r cyflyrau hyn gyda phobl yr wyf yn eu hadnabod, ac felly roedd yn amhrisiadwy i mi ei gyflawni - mae wedi datblygu fy ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn sylweddol."

"Mae'r sylwadau yr ydym wedi'u derbyn yn trafod strwythur da y cwrs a'i fod yn hawdd ei ddefnyddio. Cadarnhaol iawn!"

# Pennod 4: Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu

Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi ymrwymo i wella dealltwriaeth o awtistiaeth ledled Cymru. Un ffordd hanfodol o wneud hyn yw drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu'r gweithlu.

## Cymunedau Ymarfer:



Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi parhau i hwyluso cyfres o ddigwyddiadau Cymunedau Ymarfer. Mae'r sesiynau hyn wedi'u dylunio i ddatblygu sgiliau ymarferwyr o ran eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o niwrowahaniaeth a chyflyrau niwrowahanol. Maent yn cael eu cyflwyno gan arbenigwyr arweiniol yn y maes. Cynhaliwyd sawl sesiwn eleni:

### Cyd-gymuned Ymarfer gyda grŵp diddordeb arbennig Niwrowahaniaeth y Coleg Brenhinol Seiciatryddion ar Iechyd Meddwl - Kirsten Barnicot, Jennie Parker a Simon Moseley:

Ar 7 Ebrill 2022, gweithiodd y tîm gyda grŵp diddordeb arbennig ND Coleg Brenhinol y Seiciatryddion i gyd-hwyluso Cymuned Ymarfer ar iechyd meddwl.

Darparodd Kirsty Barnicot a Jennie Parker gyflwyniad ar wella'r gallu i adnabod, deall a gwahaniaethu rhwng awtistiaeth ac 'anhwylder personoliaeth'. Cyflwynodd Simon Moseley o Wasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru ar awtistiaeth ac iechyd meddwl.

Daeth **179** o bobl i'r sesiwn ac fe gafwyd adborth cadarnhaol.

### Salwch Ffug neu wedi'i achosi - Cathie Long a Rachel Gavin:

Ar 29 Mehefin 2022, cyflwynodd Cathie Long a Rachel Gavin Gymuned Ymarfer ar Salwch Ffug neu Wedi'i Achosi.

Daeth **130** o bobl i'r sesiwn ac fe gafwyd adborth cadarnhaol:

> "Diolch am drafodaethau a syniadau diddorol. Rydym yn edrych ymlaen at fynychu COP arall."

> "Gwybodaeth a thrafodaethau defnyddiol iawn."

"Hyfforddiant gwych. Diolch!!"

## Ticiau a Tourettes - Tourettes Action:

Ar 4 Hydref 2022, cyflwynodd Tourettes Action Gymuned Ymarfer ar gyfer Ticiau a Tourettes.

Daeth **55** o bobl i'r sesiwn ac fe gafwyd adborth cadarnhaol:

(Logo Tourettes Action)

"Hyfforddiant rhagorol, llawn gwybodaeth. Diolch yn fawr iawn."

"Diolch yn fawr. Addysgiadol iawn."

"Diolch yn fawr - hyfforddiant gwych!"

## Pan fydd cymhlethdod hyd yn oed yn fwy cymhleth - Helen Minnis:

Ar 26 Ionawr 2023, cyflwynodd Helen Minnis Gymuned Ymarfer ar gymhlethdod, trawma a niwrowahaniaeth o'r enw 'Pan fydd Cymhlethdod hyd yn oed yn fwy cymhleth'.

Daeth **144** o bobl i'r sesiwn ac fe gafwyd adborth cadarnhaol:




(Sgrinlun - cyflwyniad Helen Minnis)

"Diolch am yr hyfforddiant a thrafodaethau defnyddiol ar gyfer maes cymhleth."


"Cyflwyniad gwych.Diolch Helen."

"Cyflwyniad gwych.Roedd yn procio'r meddwl."

## Alexithymia - Digby Tantam:

Ar 14 Chwefror 2023, cyflwynodd Digby Tantam Gymuned Ymarfer ar Alexithymia.

Daeth **77** o bobl i'r sesiwn ac fe gafwyd adborth cadarnhaol:




(Sgrinlun - cyflwyniad Digby Tantam)

"Gwych a diolch yn fawr iawn."

"Diolch am sesiwn addysgiadol."

"Diolch, sesiwn wych! "Edrychwn ymlaen at sesiwn nesaf."

## ADHD - Jo Steer and Dan Jones:

Ar 14 Mawrth 2023, cyflwynodd Jo Steer a Dan Jones (The Aspie World) Gymuned Ymarfer ar ADHD.Darparodd Jo Steer gyflwyniad ar ADHD, menywod a merched ac fe gyflwynodd Dan Jones ar awtistiaeth, ADHD ac OCD.

Daeth **120** o bobl i'r sesiwn ac fe gafwyd adborth cadarnhaol:


> "Diolch, siaradwyr gwych!"

> "Gwych, diolch.Rwyf wedi mwynhau eich sesiynau."

> "Diolch am sgwrs ddefnyddiol ac addysgiadol."



(Sgrinlun o gyflwyniad Cymuned Ymarfer Jo Steer)



(Sgrinlun o gyflwyniad Cymuned Ymarfer Dan Jones)

Gwyliwch holl recordiadau'r Gymuned Ymarfer **yma**.

## Capita:

Yn 2022/23, parhaodd y tîm â'u hymrwymiad parhaus i ddarparu hyfforddiant i Capita.Hyfforddwyd staff o Capita eleni, yn ogystal â'r sesiynau hyfforddiant a ddarparwyd i'r sefydliad yn y blynyddoedd blaenorol. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y rhai a oedd yn bresennol:

(Logo Capita)

> "Llawn gwybodaeth."

> "Roedd y ddau gynrychiolydd yn wych gydag ystod eang o wybodaeth ac fe groesawyd eu cyfraniad."

> "Sesiwn wych ar destun yr wyf wedi cael trafferthion ag ef yn y gorffennol, a byddwn yn teimlo'n well wrth asesu rhywun â'r cyflwr yn y dyfodol, diolch."

## Tîm Cwsmeriaid Diamddiffyn Dŵr Cymru:

OAr 27 Ebrill 2022, darparodd y tîm hyfforddiant i Dîm Cwsmeriaid Diamddiffyn Dŵr Cymru. Daeth **20** o staff i'r sesiwn ac fe gafwyd adborth cadarnhaol:

**(Logo Dwr Cymru)**

> "Roedd yr hyfforddiant yn amhrisiadwy, yn llawn gwybodaeth, diddorol ac yn hawdd ei ddilyn. Y peth gorau oedd yr holl fideos hyfforddiant ychwanegol a'r gefnogaeth ar eich gwefan yr oedd modd cael mynediad atynt yn ein hamser ein hunain, cyfeirlyfr ar flaen ein bysedd."

## Iechyd Sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Deall Awtistiaeth:

Ar 29 Mehefin 2022, hyfforddodd y tîm staff sy'n gweithio ym maes iechyd sylfaenol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar ddeall awtistiaeth. Daeth **130** o bobl i'r sesiwn ac fe gafwyd adborth cadarnhaol:

**(Logo Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan)**

> "Rydym yn hapus i weithio gyda chi; rydym yn ddiolchgar eich bod yn bodoli!"

> "Byddwn hefyd yn cwblhau'r eDdysgu, diolch am yr holl wybodaeth heddiw."

## Rhwydwaith Lles Integredig - Deall Awtistiaeth:

Ar 11 Hydref 2022, hyfforddodd y tîm y Rhwydwaith Lles Integredig. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar ddeall awtistiaeth. Daeth **35** o bobl i'r sesiwn ac fe gafwyd adborth cadarnhaol:

**(Logo Rhwydweithiau Lles Integredig Gwent)**

> "Sesiwn hyfforddiant wych, diolch yn fawr iawn!"

> "Diolch yn fawr - rydych yn gwneud gwaith GWYCH."

> "Diolch i chi'ch dau!Sesiwn hyfforddiant wych!!"

> "Diolch yn fawr Fran a Sioned - sesiwn addysgiadol."

## Amgueddfa Cymru - Deall Awtistiaeth - Hyfforddi'r Hyfforddwr:

Ar 7 Chwefror 2023, cynhaliodd y tîm sesiwn hyfforddi'r hyfforddwr ar gyfer Amgueddfa Cymru. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar ddeall awtistiaeth. Daeth **8** o bobl i'r sesiwn ac fe gafwyd adborth cadarnhaol:

(Logo Amgueddfa Cymru)

"Roedd Frances yn glir, llawn gwybodaeth ac yn gallu ateb ein cwestiynau."

"Diolch, rydym yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a'r ffaith ei fod yn rhad ac am ddim! Diolch yn fawr!"

"Diolch yn fawr i Frances am yr hyfforddiant - roedd yn agos atoch!"

## Hyfforddi Meddygon Teulu - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:

Ar 16 Chwefror 2023, darparodd y tîm hyfforddiant i Feddygon Teulu o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Daeth **100** o bobl i'r sesiwn ac fe gafwyd adborth cadarnhaol:

(Logo Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)

"Roedd yr hyfforddiant yn berffaith; wedi'i drefnu a'i gyflwyno'n dda."

"Mae'r wybodaeth a'r adnoddau a ddarparwyd y gallaf edrych arnynt eto'n hynod ddefnyddiol a byddaf yn eu hastudio ymhellach."

"Roedd yr hyfforddwyr yn llawn gwybodaeth, ac roedd er budd mawr i'r staff, byddai cyflwyniad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf wyneb yn wyneb yn ddefnyddiol!"

## Hyfforddiant Llinell Gymorth C.A.L.L ND:

Yn ystod mis Mawrth 2023, hyfforddodd y tîm y rhai sy'n ateb galwadau ffôn ar gyfer llinell gymorth C.A.L.L. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau niwroamrywiaeth a niwrowahaniaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael ledled Cymru, er mwyn iddynt allu darparu cefnogaeth effeithiol i'r rhai sy'n ffonio llinell wrando ND newydd Llywodraeth Cymru.Cafwyd adborth cadarnhaol am y sesiynau:

"Diolch yn fawr. Addysgiadol iawn. Gobaith am ddyfodol disglair."

"Llawn gwybodaeth, diolch i chi'ch dau. Diolch."

"Diolch Fran a Sioned. Addysgiadol iawn."

(Logo C.A.L.L. Llinell Gymorth)

# Pennod 5: Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig

## Uchafbwyntiau data:

Mae data'n cael ei fewnbynnu gan bob Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig bob chwarter a'i anfon drwy Emyr, safle cyfnewid ffeiliau diogel Data Cymru, yn seiliedig ar dri chategori Data Oedolion, Data Rhiant Ofalwr a Data Proffesiynol. I gyfoethogi'r data, mae rhagor o ddata'n cael ei gofnodi drwy'r Seren Ganlyniadau, teclyn mesur canlyniadau a data ansoddol drwy astudiaethau achos.




Arsylwyd yr uchafbwyntiau data canlynol ar draws y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn 2022/23 ac yn dangos bod atgyfeiriadau i'r gwasanaethau yn parhau i gynyddu. I gael rhagor o wybodaeth fanwl gweler yr adroddiad data llawn yn yr atodiad.

- **9,755** rhyngweithiad gydag oedolion
- **5,143** o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth ar gyfer oedolion gyda **57%** ohonynt yn hunanatgyfeiriadau.
- **72%** o atgyfeiriadau ar gyfer oedolion yn ceisio asesiadau diagnostig awtistiaeth ac roedd **28%** yn ceisio cefnogaeth
- Derbyniodd **973** o oedolion asesiad diagnostig
- Derbyniodd **623** o oedolion ddiagnosis o awtistiaeth
- **1,817** o gysylltiadau gyda rhieni / gofalwyr
- **399** o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth ar gyfer rhieni/gofalwyr gyda **89%** ohonynt yn hunanatgyfeiriadau.
- Roedd **89%** o'r atgyfeiriadau ar gyfer rhieni / gofalwyr oedolion awtistig a **11%** ar gyfer rhieni / gofalwyr plant awtistig.
- **4,346** cysylltiad â gweithwyr proffesiynol.
- **1,732** cysylltiad newydd gyda gweithwyr proffesiynol.
- **61%** o'r cysylltiadau gan weithwyr iechyd proffesiynol, **20%** yn weithwyr proffesiynol o awdurdodau lleol a **7%** yn weithwyr proffesiynol o'r sector gwirfoddol.

Am adroddiad data IAS 2022/23 llawn, gweler **Atodiad 1**.

# Astudiaethau Achos:

Mae’r Casgliad o Astudiaethau Achos arferion gorau yn dangos yr ystod o waith effeithiol sy’n cael ei gyflawni ledled Cymru. Mae pob astudiaeth achos yn cynnwys lleisiau’r unigolion awtistig a / neu rieni / gofalwyr pobl awtistig, yn adlewyrchu sut mae’r gefnogaeth ac ymyraethau a ddefnyddiwyd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau.




**(Ciplun o'r Compendiwm Astudiaethau Achos)**

Mae’r Casgliad o Astudiaethau Achos yn declyn allweddol i hyrwyddo’r gwaith cadarnhaol sy’n cael ei gyflawni gan y saith Gwasanaeth Awtistiaeth integredig yng Nghymru.

Darllenwch yr astudiaethau achos **yma.**

# Cyfnewid ymarfer:

Yn 2022/23, sefydlodd y tîm gyfres o ddigwyddiadau Cyfnewid Ymarfer ar gyfer staff sy’n gweithio o fewn y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig. Cynhelir y digwyddiadau hyn bob chwarter ac maent yn canolbwyntio ar destunau sy’n cael eu nodi gan y rhai sy’n gweithio gyda’r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig.

Maent yn rhoi cyfle i staff ar draws y saith Gwasanaeth i ddod ynghyd i rannu arferion i sicrhau bod ymagwedd gydlynol ac unedig i’w gwaith. Mae hefyd yn gyfle i ddarparu cefnogaeth i gyfoedion a rhannu cryfderau a heriau.

# Hyfforddiant:

Parhaodd y tîm i hwyluso cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn 2022/23.

***Rhaglen Sefydluon:***
Ym mis Mehefin 2022, cyflwynodd y tîm hyfforddiant sefydlu ar gyfer gweithwyr newydd yn y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig. Roedd hyn yn darparu trosolwg o’n gwaith a’n hadnoddau. Daeth **10** person i’r sesiwn.

***Atebwyr Galwadau Ffôn Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gorllewin Cymru:***
Ym mis Tachwedd 2022, darparodd y tîm hyfforddiant ar gyfer unigolion sy’n ateb galwadau ffôn yng Ngwasanaethau Awtistiaeth Integredig Gorllewin Cymru. Daeth **5** person i’r sesiwn.

***DISCO:***
Ym mis Gorffennaf a Hydref 2022, ariannodd y tîm hyfforddiant DISCO. Daeth **15** o bobl.

# Pennod 6: Addysg

## Dysgu am Awtistiaeth:

Mae'r rhaglenni Dysgu am Awtistiaeth yn mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion plant awtistig. Mae'r hyfforddiant wedi ei gynllunio i gynhyrchu trafodaethau a chynyddu dealltwriaeth ymhlith yr holl staff a disgyblion ar draws yr ysgol/lleoliad. Mae'r data canlynol yn dangos y niferoedd sydd wedi defnyddio'r rhaglenni ledled Cymru.



## Y Blynyddoedd Cynnar:

Ers ei lansio ddiwedd Medi 2017, mae **3,343** aelod o staff wedi cyflawni rhaglen hyfforddiant y blynyddoedd cynnar ac mae **121** Lleoliad Blynyddoedd Cynnar wedi derbyn eu gwobr Dysgu am Awtistiaeth. Roedd **9** o'r rhain yn ystod 2022/23.

"Mae'r staff yn awr yn fwy ymwybodol o ddelio ag ystod o sefyllfaoedd ac anghenion gwahanol y plant."

– **Cylch Meithrin Parcyrhun**

"Mae gennym amserlen ddyddiol weledol, rydym wedi creu ardal synhwyraidd ac ardal dawel. "Mae'r holl aelodau o staff yn gwisgo cortyn gwddf gyda lluniau gweledol o weithgareddau arnynt."

– **Cylch Meithrin Llanhari**

Mae modd dysgu mwy am y cynllun Blynyddoedd Cynnar **yma**

# Ysgolion Cynradd:

Lansiwyd rhaglen Dysgu am Awtistiaeth ysgolion cynradd ym mis Mawrth 2016. Ers ei lansio, mae **261** o ysgolion ledled Cymru wedi cyflawni gwobr Dysgu am Awtistiaeth. Yn ystod 2022/23 mae **16** ysgol arall wedi cyflawni gwobr Dysgu am Awtistiaeth.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae **1,523** aelod o staff addysgu wedi cyflawni Dysgu am Awtistiaeth (**11,157** i gyd) a **1,365** o staff Cymorth Addysg (**11,157** i gyd). At hynny mae **3,095** o blant wedi cwblhau cynllun Arwyr Awtistiaeth (**53,807** i gyd).

Derbyniwyd y dyfyniad canlynol gan ysgol gynradd a gwblhaodd y rhaglen yn 2022/23 ac a rannodd sut y bydd yn addasu ei harfer o ddydd i ddydd:

